Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

# Cynllun Gwella'r Gyllideb

llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG43497

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Penderfyniadau Gwario** | |
| Cynllunio ariannol tymor hirach | 2 |
| Cynllunio ariannol tymor hirach | 2 |
| Yr agenda atal | 2 |
| Ymateb i newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth | 2 |
| Tryloywder data Cyllidebol | 2 |
| **Dadansoddiadau Ariannol ac Economaidd ac Asesu'r Effaith:** | **2** |
| Dadansoddiadau Ariannol | 2 |
| Dadansoddiadau Economaidd | 2 |
| Asesu effaith penderfyniadau cyllidebol i wella canlyniadau | 2 |
| **Cynllunio Seilwaith** | **2** |
| **Cyllidebau Atodol** | **2** |
| **Trethi Cymreig** | **2** |
| **Ymgysylltu ynghylch Trethi a'r Gyllideb** | **2** |
| **Sut mae'r cyfan yn gweithio gyda'i gilydd?** | **3** |
| **Yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y gwelliannau arfaethedig yn ystod 2021** | **4** |
| Penderfyniadau Gwario | 4 |
| Cyllidebau Atodol | 4 |
| Cynllunio Seilwaith | 4 |
| Trethi Cymreig | 4 |
| Dadansoddiadau Ariannol ac Economaidd ac Asesu'r Effaith | 4 |
| **Ymgysylltu ynghylch Trethi a'r Gyllideb** | **5** |
| **Amlinelliad o'r cynllun cyflawni a manylion y cynnydd** | **6** |
| **Allwedd** | **13** |


# Cyflwyniad

Fel rhan o Gyllideb 2020-21 roeddem wedi cyhoeddi Cynllun Gwella'r Gyllideb am y tro cyntaf. Roedd y cynllun yn amlinellu ein gweledigaeth, gan gynnwys dyheadau tymor byr a thymor canolig dros y pum mlynedd nesaf, er mwyn gwella proses y gyllideb drwy ddefnyddio Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol a'r pum ffordd o weithio er mwyn sicrhau gwelliant parhaus.

Rydym wedi ymrwymo i gyhoeddi'r Cynllun bob blwyddyn, er mwyn cydnabod natur barhaus sbarduno a chynnal newid tymor hirach. Ein nod cyffredinol yw y bydd y gwelliannau arfaethedig hyn i broses y gyllideb yn arwain at fwy o dryloywder yn nogfennau'r Gyllideb flynyddol i ddangos sut mae'r Ddeddf wedi dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch y gyllideb.

Mae'r Cynllun hwn sydd wedi'i ddiweddaru yn parhau i ddangos sut rydym wedi adeiladu, neu'n bwriadu adeiladu, ar y gwaith hwn yn y blynyddoedd i ddod, gan gynnwys y mesurau rydym wedi'u cymryd yn ystod cylch y gyllideb bresennol.

Caiff y Cynllun ei gyhoeddi yn erbyn cefndir parhaus yr ymateb i effeithiau pandemig COVID-19, effeithiau ymadawiad y DU o'r UE a'r argyfwng hinsawdd a natur. Mae hyn yn tynnu sylw at ba mor bwysig yw parhau i wneud cynnydd ar ein diwygiadau tymor hirach. Er gwaethaf y cyd-destun hwn, rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar ein huchelgeisiau tymor hirach i ddiwygio'r gyllideb a phrosesau treth. Rydym wedi cynnal yr adolygiad o wariant aml-flwyddyn cyntaf ers 2015. Rydym wedi ymgysylltu â llywodraethau eraill ynghylch dulliau cyllidebu ar sail rhyw, ynghyd â sut mae ymgorffori dulliau llesiant ymhellach a sut mae asesu effeithiau carbon yn well.

Rydym wedi parhau i gyflawni meysydd craidd ein Cynllun, gan ddiwygio ein hagwedd at bolisi seilwaith a chyfalaf drwy gynnal adolygiad sylfaenol ar sail sero i gyd-fynd â sefydlu Strategaeth 10 mlynedd newydd ar gyfer Buddsoddi yn Seilwaith Cymru sydd â mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur yn ganolog i'w ddatblygiad. Rydym wedi parhau â'n gwaith ar gyllidebu ar sail rhyw gyda dwy ardal beilot arall er mwyn bwrw ymlaen â'n dull gweithredu, gan adeiladu ar wersi o gynllun peilot y Cyfrif Dysgu Personol. Rydym hefyd wedi parhau i ganolbwyntio ar ddiwygio'r Grŵp Cynghori ar Gydraddoldeb ar y Gyllideb.

Yn y Flwyddyn Newydd, byddwn yn sefydlu Grŵp Cynghori ar Effaith a Gwella'r Gyllideb yn ffurfiol. Gan gadw cydraddoldeb wrth ei wraidd, bydd y Grŵp cryfach hwn yn gwreiddio ein dull integredig ymhellach drwy ddeall yn well y rhyngblethedd rhwng effeithiau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol er mwyn manteisio i'r eithaf ar effeithiau'r cyllid sydd ar gael yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd y Grŵp hwn yn ymgysylltu ac yn dylanwadu ar welliannau i brosesau treth a'r gyllideb, gan gefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Gwella'r Gyllideb yn ei dro.

Mae tudalennau 4 a 5 y Cynllun hwn yn cynnwys crynodeb manylach o'r cynnydd a wnaed gennym ar draws ein prosesau treth a'r gyllideb.

1. **Penderfyniadau Gwario** – Gwella'r prosesau a ddefnyddir ar draws Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd i nodi ac i ddatblygu cynigion gwario, gwella'r gallu i flaenoriaethu penderfyniadau sy'n cyd-fynd yn gliriach â'r nodau llesiant a'r ffyrdd o weithio; ac archwilio cyfleoedd i gynllunio'n well ar gyfer y tymor hirach.

    - **Gwreiddio'r Ddeddf mewn penderfyniadau cyllidebol** – Archwilio sut gallwn ddangos yn gliriach sut mae'r Ddeddf yn siapio blaenoriaethau gwario lefel uchel, a'n cynlluniau tymor canolig i gysoni'r broses Cyllideb flynyddol a gweithgareddau cyllidebu parhaus ar draws y sefydliad yn ehangach i fynd â'r gwelliannau hyn rhagddynt. Bydd hyn yn cyd-fynd â'r meysydd gwaith eraill sy'n cynnwys y camau gweithredu manylach y byddwn yn eu cymryd i wreiddio'r Ddeddf.
    - **Cynllunio ariannol tymor hirach** – Gweld sut gallwn wreiddio cynllunio ariannol tymor hirach yn y gwaith o baratoi'r gyllideb flynyddol gan ddefnyddio ffynonellau megis Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol a dulliau gweithredu fel modelu senarios.
    - **Yr agenda atal** – Dangos sut rydym yn datblygu'r agenda atal, gan ganolbwyntio ar y ffordd rydym yn defnyddio ein hadnoddau i gefnogi newid mewn gweithgareddau ataliol.
    - **Ymateb i newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth** – Adolygu sut mae angen i ni newid ein ffordd o ymdrin â'r gyllideb er mwyn ymateb i heriau newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys lleihau effeithiau carbon a chynyddu bioamrywiaeth ar sail tystiolaeth gyfredol a thystiolaeth sy'n dod i'r fei.
    - **Tryloywder data Cyllidebol** – Dangos ein cynlluniau i gyhoeddi data ariannol mewn fformatau sy'n fwy agored a hygyrch er mwyn cefnogi pobl i ddefnyddio'r data.

2. **Dadansoddiadau Ariannol ac Economaidd ac Asesu'r Effaith:**

    - **Dadansoddiadau Ariannol** – Datblygu'r gallu i ddeall effaith ddosbarthiadol penderfyniadau ynghylch gwariant cyhoeddus a threthiant.
    - **Dadansoddiadau Economaidd** – Parhau i ddatblygu adroddiad y Prif Economegydd i adlewyrchu'r nodau llesiant perthnasol yn llawnach ac i ddatblygu canllawiau Gwerth am Arian. Datblygu canllawiau penodol i Gymru i sicrhau bod egwyddorion y Llyfr Gwyrdd yn cael eu defnyddio mewn meysydd polisi perthnasol mewn modd sy'n gyson â gwerthoedd Llywodraeth Cymru.
    - **Asesu effaith penderfyniadau cyllidebol i wella canlyniadau** – Gwella ein prosesau i benderfynu ar gynigion gwariant er mwyn gwella'r cysylltiad rhwng gwariant a chanlyniadau. Mae hyn yn cynnwys gwaith i ailedrych ar bwrpas Asesiad Effaith Integredig Strategol y gyllideb a'i egluro, ynghyd â'r sylfaen dystiolaeth sy'n sail iddo ac archwilio a datblygu dull o gyllidebu ar sail rhyw.

3. **Cynllunio Seilwaith** – Gwella sut rydym yn datblygu, yn dylunio ac yn darparu buddsoddiad mewn seilwaith, yn unol â'n Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru newydd, a chysoni ein penderfyniadau ar fuddsoddi cyfalaf â gwerthoedd ehangach Llywodraeth Cymru a'i ffyrdd o weithio.


4. **Cyllidebau Atodol** – Parhau i ddatblygu cyfrif mwy cynhwysfawr ar ddyraniadau sylweddol o gronfeydd wrth gefn, gan ddysgu o'r dull gweithredu ar gyfer cyllidebau atodol blynyddoedd blaenorol. Byddwn yn ystyried y datblygiadau mewn meysydd eraill o broses cynllunio'r gyllideb ac yn asesu a yw'r rhain yn briodol ar gyfer y broses cyllideb atodol a sut.

5. **Trethi Cymreig** – Dangos sut rydym yn cyflawni o dan ein fframwaith polisi trethi sy'n cyd-fynd â'n pum egwyddor trethi. Bydd y maes hwn yn edrych ar sut gallwn ni godi refeniw i gyllido gwasanaethau cyhoeddus mewn ffordd sydd mor deg â phosibl. Dylai treth helpu i gyflawni amcanion ariannol a pholisi ehangach. Byddwn yn sicrhau bod polisïau treth yn syml, yn glir, yn flaengar ac yn sefydlog, gydag eglurder ac effeithlonrwydd deddfwriaethol a gweinyddol.

6. **Ymgysylltu ynghylch y Gyllideb a Threthi** – Datblygu dull strategol o ymgysylltu ynghylch y Gyllideb, o godi ymwybyddiaeth o wariant cyhoeddus a threthiant; ymgysylltu'n ystyrlon â rhanddeiliaid allweddol ac unigolion y mae penderfyniadau ynghylch y gyllideb yn effeithio arnynt i drafod ac i ystyried eu safbwyntiau; a chydweithio â rhanddeiliaid i siapio gwelliannau i gynigion gwariant a threthiant.

Mae'r diagram cysyniadol ar y dudalen nesaf yn dangos y berthynas rhwng agweddau gwahanol ar y Gyllideb flynyddol sydd yn y Cynllun hwn, ac sy'n cael eu crynhoi uchod.

# Sut mae'r cyfan yn gweithio gyda'i gilydd?



# Yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y gwelliannau arfaethedig yn ystod 2021

Ceir crynodeb isod o gynnydd y gwelliannau arfaethedig yn ystod y cyfnod hwn. Er gwaethaf y cyd-destun heriol yn ystod y flwyddyn, rydym wedi gallu gwneud cynnydd da mewn nifer o feysydd. Yn unol â natur newid systemig a hirdymor, mewn rhai meysydd bu'n rhaid i ni addasu ein cynlluniau i adlewyrchu'r amgylchiadau sy'n newid ac i ddangos ein bod wedi dysgu bod cyflawni ein huchelgeisiau yn galw am ddull wedi'i addasu. Mae'r uchelgeisiau hyn yn dal i gael eu hadlewyrchu yn ein Cynllun ar gyfer y dyfodol, er bod yr amserlenni wedi'u haddasu.

## Penderfyniadau Gwario

- Rydym wedi cydbwyso'r tymor byr a'r tymor hir drwy gynnal yr adolygiad o wariant aml-flwyddyn cyntaf ers 2015. Mae hyn yn cynnwys dechrau defnyddio dull gweithredu seiliedig ar sero ar gyfer gwariant cyfalaf, sydd â'r nod o fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur, fel sail ar gyfer sefydlu Strategaeth 10 mlynedd ar gyfer Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Er mwyn cyfrannu at y gwaith o ddyrannu cyllidebau refeniw aml-flwyddyn, gwnaethom gynnal proses adolygu newydd i gysoni gwariant â'r rhaglen lywodraethu newydd. Rydym wedi ceisio defnyddio dull integredig i ddeall effaith penderfyniadau gwario yn well, gan geisio deall effeithiau croestoriadol ac anfwriadol gwariant yn well er mwyn sicrhau bod y cyllid sydd ar gael yn cael yr effaith fwyaf posibl.
- Rydym wedi ceisio targedu buddsoddiad lle mae'n gallu atal rhagor o niwed yn erbyn y rhai mwyaf difreintiedig, yn enwedig o ganlyniad i'r pandemig.
- Gan ystyried y pandemig a'r pwysau sy'n wynebu awdurdodau lleol, rydym wedi gorfod gohirio treialu model Bond Effaith Gymdeithasol a oedd wedi'i anelu at blant a phobl ifanc sydd ar ffiniau gofal. Rydym nawr yn ailffocysu'r gronfa Buddsoddi i Arbed er mwyn canolbwyntio ar fwrw ymlaen â'n hymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu sy'n ymwneud â gwella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal ledled Cymru. Mae'r meysydd gweithgarwch wrthi'n cael eu datblygu a byddant yn cael eu lansio yn y flwyddyn newydd.

## Cyllidebau Atodol

- Roedd trydedd gyllideb atodol 2020-21 a chyllideb atodol gyntaf 2021-22 yn parhau i ddarparu naratif cynhwysfawr o ddyraniadau sylweddol y cyllidebau presennol a sut maent yn cael eu hailflaenoriaethu, ac effeithiau hynny, er mwyn gwella tryloywder.
- Roedd cyllideb atodol gyntaf 2021-22 hefyd yn adlewyrchu'r newidiadau i bortffolios gweinidogol o ganlyniad i gyfrifoldebau Cabinet newydd Llywodraeth Cymru yn dilyn etholiadau'r Senedd. Nodwyd y newidiadau hynny yn yr atodlenni ategol i nodi'n glir lle oedd cyllidebau unigol wedi symud.

## Cynllunio Seilwaith

- Rydym wedi cyhoeddi ein Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru newydd i gefnogi'r gwaith o gyflawni economi di-garbon, fel olynydd Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Mae'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, sy'n seiliedig ar bedair egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – er mwyn gwella llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol Cymru – yn nodi'r canlyniadau y mae'n rhaid i fuddsoddiad mewn seilwaith helpu i'w cyflawni. Rydym hefyd yn cyhoeddi ein Cynllun Cyllid Seilwaith cyntaf, yn unol â'r Gyllideb Ddrafft, sy'n nodi'r buddsoddiadau seilwaith y mae eu hangen dros y cyfnod 2022-23 i 2024-25 er mwyn cyflawni'r canlyniadau strategol hynny yn y modd mwyaf effeithiol.

## Trethi Cymreig

- Rydym wedi parhau i fwrw ymlaen â'n hymrwymiadau a manteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio ein liferi trethu presennol er budd trethdalwyr Cymru a chyflawni amcanion polisi ehangach Llywodraeth Cymru. Er mwyn cryfhau a gwreiddio ein dull pendant o lunio polisi trethi yng Nghymru, rydym wedi cyhoeddi diweddariad i'n 'Fframwaith Polisi Trethi' (Tachwedd, 2021). Yma, fe wnaethom fanteisio ar y cyfle i ailddatgan ein hegwyddorion treth ochr yn ochr â'n dull polisi trethi. Ein dull polisi trethi yw ein hymrwymiad i'r ffordd y byddwn yn cydweithio â'n partneriaid i gynhyrchu a chyflawni ein hamcanion polisi trethi ar y cyd. Mae diweddariad y Fframwaith Polisi Trethi yn nodi sut byddwn yn sicrhau ein bod yn parhau i wreiddio ystyriaethau cynaliadwyedd, tegwch a chydraddoldeb yn y ffordd rydym yn mynd i'r afael â'n blaenoriaethau.
- Gwnaethom gyhoeddi ein 'Cynllun Gwaith Polisi Trethi ar gyfer 2021-2026' ochr yn ochr â'r diweddariad i'r Fframwaith Polisi Trethi. Mae ein blaenoriaethau o ran polisi trethi yn adeiladu ar ymrwymiadau ein Rhaglen Lywodraethu mewn perthynas â threthi datganoledig a lleol, ac yn hyrwyddo ein nod o sicrhau bod trethi wedi'u datganoli'n gadarn a sefydlog. Mae ein Cynllun Gwaith Polisi Trethi yn rhoi cyfarwyddyd a sicrwydd clir mewn perthynas â'n blaenoriaethau o ran polisi trethi ar gyfer y pum mlynedd nesaf.
- Byddwn yn parhau i adrodd ar gynnydd yn flynyddol yn erbyn ein Cynllun Gwaith Polisi Trethi, ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft.

## Dadansoddiadau Ariannol ac Economaidd ac Asesu'r Effaith

- Drwy ddefnyddio'r data a'r dystiolaeth sydd ar gael, mae economegwyr Llywodraeth Cymru wedi parhau i chwarae rhan ganolog yn y gwaith o gynhyrchu dadansoddiad economaidd a phapur briffio ar yr heriau economaidd sy'n esblygu sy'n ymwneud â'r pandemig a throsglwyddo i berthynas fasnachu newydd â'r Undeb Ewropeaidd. Mae hyn wedi cynnwys cyflwyniadau i'r Cabinet ac uwch swyddogion, paratoi dadansoddiadau ac asesiadau pwrpasol a nodir mewn Adroddiad Economaidd Misol mewnol.
- Rydym yn dal wedi ymrwymo i adolygu sut rydym yn asesu effeithiau. Ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2022-23, rydym wedi parhau â'r dull o gyflwyno gwybodaeth am effeithiau cynigion gwario fel rhan o'r prif naratif. Mae hyn yn cael ei ategu gan dystiolaeth gryno o effeithiau cyffredinol y pandemig ar gymdeithas, ochr yn ochr ag astudiaethau achos manylach ar effeithiau penderfyniadau penodol ar wariant, a gyflwynir yn yr Asesiad Effaith Integredig Strategol.

Rydym wedi ymgysylltu â llywodraethau eraill ynghylch sut maent yn defnyddio dulliau tebyg, yn ogystal â phrofi dulliau newydd i weld sut gallem asesu effeithiau'r gyllideb yn well, fel y disgrifir isod:

- Rydym wedi parhau i ddatblygu ein gwaith i wreiddio dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar rywedd mewn nifer o feysydd ac rydym yn sicrhau bod Trysorlys Cymru yn bwrw ymlaen â'r gweithgarwch pwysig hwn. Er mwyn sicrhau ein bod yn dysgu gwersi gan eraill, rydym wedi defnyddio ein cysylltiadau drwy rwydwaith y Llywodraethau Llesiant (WeGo) i adfywio ein cysylltiadau ag arweinwyr byd yn y maes hwn, gan gynnwys Gwlad yr Iâ a Chanada.
- Mae ffactorau allanol wedi arwain at oedi cyn sefydlu'r canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg yn y gwerthusiad o Gyfrif Dysgu Personol Llywodraeth Cymru. Disgwylir y bydd adroddiad interim yn cael ei gyhoeddi yn y gwanwyn gydag adroddiad terfynol i'w ddilyn ddiwedd haf 2022. Fodd bynnag, mae'r data sydd ar gael o'r rhaglen yn dangos bod yr hyblygrwydd a gynigir wedi apelio at amrywiaeth eang o bobl sydd wedi ceisio datblygu sgiliau mewn meysydd nad ydynt yn rhai nodweddiadol o ran rhywedd.
- Fel rhan o'r Cynllun Gwella'r Gyllideb hwn, rydym hefyd wedi sefydlu dau gynllun peilot arall ar gyfer cyllidebu ar sail rhyw a fydd yn dechrau yn gynnar yn 2022. Er mwyn sicrhau bod y rhai a allai wynebu rhwystrau cymhleth o ran cael gafael ar gymorth, bydd y tîm Gwarant i Bobl Ifanc yn ymgorffori Cyllidebu ar sail Rhyw wrth gynllunio a datblygu'r gwasanaethau. Bydd hyn yn sicrhau bod modd deall yr ystod lawn o effeithiau wrth gyflawni a bod y rhaglen yn gallu esblygu i sicrhau ei bod yn diwallu anghenion pob person ifanc.
- Mae gan deithio llesol rôl bwysig i'w chwarae o ran darparu system drafnidiaeth gynaliadwy ar draws holl gymunedau Cymru. Er mwyn i'r newid hwn ddigwydd, mae'n hollbwysig ein bod yn deall yr effeithiau ar draws pob rhan o'r boblogaeth er mwyn sicrhau bod modd mynd i'r afael â rhwystrau a bod adnoddau'n cael eu cyfeirio yn y ffordd fwyaf priodol. Byddwn yn cynnal cynllun peilot wedi'i dargedu ynghylch cyllidebu sail rhyw ym maes teithio llesol.
- Rydym wedi edrych ar fireinio ac ymestyn ein model effaith ddosbarthiadol ar gyfer dadansoddi gwariant cyhoeddus yng Nghymru. Hyd yma, mae'r dadansoddiad wedi yn canolbwyntio ar y meysydd gwariant datganoledig mwyaf, gan roi dealltwriaeth lefel uchel ynghylch pa mor flaengar yw gwariant ar y meysydd hyn. Eleni, rydym wedi edrych ar wella ein methodoleg a gweld a oes modd cynnwys meysydd gwariant ychwanegol. Rydym wedi cyhoeddi'r diweddariad cychwynnol hwn fel rhan o becyn Cyllideb Ddrafft 2022-23.
- Rydym wedi adeiladu ar y gwaith rydym wedi'i gomisiynu a'i gyhoeddi fel rhan o Adroddiad y Prif Economegydd ym mhecyn Cyllideb Ddrafft 2021-22. Drwy ddefnyddio dull gweithredu seiliedig ar sero sylfaenol ar gyfer cyllidebau cyfalaf cyffredinol i sefydlu Strategaeth 10 mlynedd ar gyfer Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, fe wnaethom ganolbwyntio ar ddeall effeithiau ein buddsoddiadau ar Sero Net yn well. Mae'r rhain, sydd wedi'u cyhoeddi yn ein Cynllun Cyllid Seilwaith newydd, yn cynnwys amrywiaeth o asesiadau a gynhelir ym mhob maes asesu cyfalaf. Mae hyn wedi cael ei gysoni â'r Cynllun Cyflawni Sero Net newydd sy'n cynnwys dadansoddiad pellach o effaith polisïau a chamau gweithredu Llywodraeth Cymru a'n partneriaid ar allyriadau nwyon tŷ gwydr.

## Ymgysylltu ynghylch Trethi a'r Gyllideb

- Roeddem wedi cynnal rhith gynhadledd drethi flynyddol ar 3 Tachwedd er mwyn helpu i hyrwyddo agenda trethi Cymru. Roedd yr agenda'n cynnwys cyflwyniadau gan sefydliadau allanol fel y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Cafwyd cyflwyniadau gan gyfranwyr rhyngwladol o Philadelphia ac Amsterdam ar eu profiadau gyda threthi twristiaeth ac fe gafwyd trafodaeth lawn i edrych ar ddulliau o godi ymwybyddiaeth a chynyddu ymgysylltiad ynghylch trethiant.
- Cyfarfu'r Grŵp Ymgysylltu ar Drethi ym mis Medi ac fe drafodwyd ystyriaethau amrywiol o ran polisi trethi, gan gynnwys mewn perthynas ag ail gartrefi a'r Fframwaith Polisi Trethi.
- Mae ein cyfrifiannell cyfraddau treth incwm Cymru sydd wedi'i chyhoeddi ar llyw.cymru yn ffordd ryngweithiol o ddangos sut mae cyfraddau treth incwm Cymru yn cael eu gwario ar wasanaethau cyhoeddus allweddol yng Nghymru.
- Rydym wedi bwrw ymlaen â'n cynlluniau i ddatblygu ein dull o ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn dylanwadu ar welliannau i brosesau'r gyllideb. Ym mis Rhagfyr, roeddem wedi ailgynnull aelodau Grŵp Cynghori'r Gyllideb ar Gydraddoldeb i drafod a chytuno ar gynnig i ddatblygu aelodaeth a chylch gorchwyl y Grŵp. Yn y Flwyddyn Newydd, byddwn yn sefydlu Grŵp Cynghori ar Effaith a Gwella'r Gyllideb yn ffurfiol. Bydd y grŵp hwn yn ymgysylltu ac yn dylanwadu ar welliannau i brosesau treth a'r gyllideb, gan gefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Gwella'r Gyllideb drwy hynny.
- Fe wnaethom ymgysylltu â myfyrwyr chweched dosbarth sy'n astudio economeg fel rhan o'r rhaglen rydym yn ei datblygu ynghylch llythrennedd yn y Gyllideb. Cymerodd y myfyrwyr ran mewn arolygon a defnyddiodd yr athrawon ein deunydd cynnwys cyfathrebu ar gyfer gwersi i drafod treth, gwariant a'r economi yng Nghymru. Cynhaliwyd sesiynau Holi ac Ateb Rhithiol gyda phob ysgol, lle bu'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol a'r Prif Economegydd yn siarad am eu rolau ac yn ateb cwestiynau gan fyfyrwyr.
- Nod y cynnwys cyfryngau cymdeithasol cyn Cyllideb 2022-23 oedd codi ymwybyddiaeth o'r Gyllideb Ddrafft, a'i pherthnasedd i gynulleidfaoedd newydd, gyda naratif syml ac animeiddiad ynghylch sut mae Llywodraeth Cymru yn gwario ei harian.
- Ar y diwrnod cyhoeddi, roeddem wedi cyhoeddi a hyrwyddo amrywiaeth o asedau digidol ar draws Llywodraeth Cymru a Thrysorlys Cymru a sianeli adrannol i gyfleu negeseuon allweddol ynghylch y Gyllideb mewn ffordd syml. Roedd hyn yn cynnwys animeiddiad a thaflen gyllideb. Roeddem hefyd wedi datblygu papur briffio technegol a hysbysiad i'r wasg i gefnogi ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol yn y cyfryngau.
- Cafodd cynnwys ffilm y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol sy'n hyrwyddo'r negeseuon allweddol ar gyfer cyhoeddi Cyllideb Ddrafft 2022-23 ei ddatblygu a'i gyhoeddi ar draws sianeli cyfryngau cymdeithasol.

[◂ Nôl i'r dudalen gynnwys]

Etholiad y Senedd (2021)

Etholiad Cyffredinol y DU? (2024)

| 2021 | 2022 | 2023 | 2024 | 2025+ |
|---|---|---|---|---|
| Cynllunio a chreu cyllideb 2022-23 | Cynllunio a chreu cyllideb 2023-24 | Cynllunio a chreu cyllideb 2024-25 | Cynllunio a chreu cyllideb 2025-26 | Cynllunio a chreu cyllideb 2026-27 |

## Grŵp Trosolwg Gwella'r Gyllideb

### Ymgorffori'r Ddeddf mewn penderfyniadau gwario

**2021:** Rydym wedi bwrw ymlaen â'n cynlluniau i ddatblygu ein dull o ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn dylanwadu ar welliannau i brosesau'r gyllideb. Ym mis Rhagfyr, roeddem wedi ailgynnull aelodau Grŵp Cynghori ar Gydraddoldeb y Gyllideb i drafod a chytuno ar gynnig i ddatblygu aelodaeth a chylch gorchwyl y grŵp. Archwilio a datblygu mecanweithiau i gael gafael ar dystiolaeth ac arbenigedd i roi cyngor uniongyrchol i'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ar flaenoriaethau'r gyllideb strategol. Nod hyn yw darparu cyngor uniongyrchol i lywio dewisiadau gwario ar ddyraniadau cyllideb fel rhan o broses y gyllideb, gan gynnwys cydbwyso blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd.

**2022:** Yn y Flwyddyn Newydd, byddwn yn sefydlu Grŵp Cynghori ar Effaith Gwella'r Gyllideb yn ffurfiol. Bydd y grŵp hwn yn ymgysylltu ac yn dylanwadu ar welliannau i brosesau treth a'r gyllideb gan gefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Gwella'r Gyllideb yn ei dro. Bydd y grŵp hwn hefyd yn darparu arbenigedd a thystiolaeth i roi cyngor uniongyrchol i'r Llywodraeth Leol Cyllid ar flaenoriaethau'r gyllideb strategol. Nod hyn yw darparu cyngor uniongyrchol i lywio dewisiadau gwario ar ddyraniadau cyllideb fel rhan o broses y gyllideb, gan gynnwys cydbwyso blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd.

**2023:** Adolygu'r Grŵp Cynghori ar Effaith Gwella'r Gyllideb a gwneud unrhyw newidiadau i sicrhau bod y grŵp yn gwbl gyson wrth gyflawni ei ganlyniadau.

**2024–2025+:** Parhau â rôl y Grŵp Cynghori ar Effaith Gwella'r Gyllideb i sicrhau ei fod yn cyflawni ei ganlyniadau ac yn parhau i ymgysylltu a dylanwadu ar welliannau i brosesau trethi a chyllidebu, yn ogystal â chefnogi Cynllun Gwella'r Gyllideb.

## Penderfyniadau Gwario

**2021:** Roedd trydedd gyllideb atodol 2020-21 a chyllideb atodol gyntaf 2021-22 yn parhau i ddarparu naratif cynhwysfawr o ddyraniadau sylweddol y cyllidebau presennol a sut maent yn cael eu hailflaenoriaethu, ac effeithiau hynny, er mwyn gwella tryloywder.

**2022:** Ymgysylltu â Llywodraethau eraill a'r Grŵp Cynghori ar Effaith Gwella'r Gyllideb ynghylch prosesau cyllidebu.

**2023–2025+:** Defnyddio BIIAG gyda'r nod o ymgorffori dull gweithredu lle caiff cynigion gwario eu datblygu drwy ystyried eu buddion hirdymor, a sicrhau eu bod yn cael eu cydbwyso yn erbyn anghenion tymor byr, eu gallu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu, ac y dylanwadwyd arnynt ar ôl ymgynghori ac ymgysylltu â'r rhanddeiliaid y mae'r gweithgaredd yn effeithio arnynt.

**2021:** Ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau bod y gyllideb yn gyson â'r Rhaglen ar gyfer y Llywodraeth a nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**2022–2025+:** Ceisio ymgorffori dull gweithredu lle caiff cynigion gwario eu datblygu drwy ystyried eu buddion hirdymor, a sicrhau eu bod yn cael eu cydbwyso yn erbyn anghenion tymor byr, eu gallu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu, ac y dylanwadwyd arnynt ar ôl ymgynghori ac ymgysylltu â'r rhanddeiliaid y mae'r gweithgaredd yn effeithio arnynt.

### Yr Agenda Atal

**2021:** Mae'r camau rydym wedi'u cymryd ac rydym yn dal i'w cymryd, yn ystod 2021-22, i ymateb i'r pandemig yn 2021-22 wedi canolbwyntio i raddau helaeth ar atal niwed i'r mwyaf difreintiedig ac atal effeithiau negyddol ehangach ar bobl Cymru ac ar yr economi ehangach, ynghyd ag ymateb i atal yng nghyswllt yr argyfwng natur a hinsawdd.

**2022:** Ymgysylltu â'r Grŵp Cynghori ar Effaith a Gwella'r Gyllideb i lywio dyfodol yr agenda atal.

**2023–2025+:** Yn amodol ar ganfyddiadau o waith blaenorol, edrych ar y ffordd orau o gefnogi dull gweithredu cyllideb gyfan tuag at weithgareddau ataliol ac ystyried gwerthusiad posibl i brofi ymarferoldeb ac effaith symud gwariant tuag at weithgareddau ataliol, a'r amodau sydd eu hangen i wneud hyn yn effeithiol ar draws y sefydliad cyfan.

**2021:** Gwaith cychwynnol i archwilio model Bond Effaith Gymdeithasol y cafodd pandemig COVID-19 effaith niweidiol arno ac na lwyddodd ei waith i fynd rhagddo fel y disgwyl.

**2022–2024:** Rydym yn ailffocysu'r gronfa Buddsoddi i Arbed er mwyn canolbwyntio ar fwrw ymlaen â'n hymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu sy'n ymwneud â gwella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal ledled Cymru. Mae'r meysydd gweithgarwch wrthi'n cael eu datblygu a byddant yn cael eu lansio yn y flwyddyn newydd. Bydd hwn yn ddull cydweithredol gyda'r sector cymdeithasol a'r gymuned ariannol.

**2021–2025+:** Parhau i weithredu'r camau arfaethedig a nodir yng Nghynllun Cyflawni Carbon Isel 2021-26, gan gynnwys defnydd Llywodraeth Cymru o'i dulliau anariannol eraill i ddylanwadu ar leihau allyriadau carbon.

[◄ Nôl i'r dudalen gynnwys]

Etholiad y Senedd (2021)

Etholiad Cyffredinol y DU? (2024)

| 2021 | 2022 | 2023 | 2024 | 2025+ |
|---|---|---|---|---|
| Cynllunio a chreu cyllideb 2022-23 | Cynllunio a chreu cyllideb 2023-24 | Cynllunio a chreu cyllideb 2024-25 | Cynllunio a chreu cyllideb 2025-26 | Cynllunio a chreu cyllideb 2026-27 |

# Penderfyniadau Gwario

## Ymateb i newid yn yr hinsawdd a gostyngiad mewn bioamrywiaeth

- **2021:** Cyhoeddi Cymru Sero Net 2021-25 sy'n cynnwys camau wedi'u diffinio ac yn amlinellu'r camau rydym yn eu cymryd fel rhan o ddyraniad y gyllideb ariannol nesaf.
- **2022–2023:** Cyhoeddi fersiwn newydd Strategaeth Buddsoddiad yn Seilwaith Cymru a ddatblygir drwy ddefnyddio sylfaen dystiolaeth gadarn er mwyn integreiddio ystyriaeth o fuddiannau hanfodol eraill - gan gynnwys datgarboneiddio, cadernid hinsawdd a bioamrywiaeth – er mwyn i'r buddsoddiadau mawr hyn gael yr effaith gadarnhaol fwyaf ar lesiant Cymru.
- **2024:** Pennu lefel y drydedd gyllideb garbon (2026-2030)
- **2025+:** Cyhoeddi Cymru Sero Net (2026-30)

- **2021:** Cyhoeddi rhagor o allbynnau o'r model i amcangyfrif yr allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â chynigion gwario fel rhan o becyn Cyllideb Derfynol 2021-22.
- **2022–2025+:** Parhau i ddatblygu cryfder y sylfaen dystiolaeth bresennol i roi sicrwydd ynghylch gwerth am arian i gefnogi blaenoriaethu buddsoddiadau, gan adeiladu ar y model a ddatblygwyd. Adolygu dulliau cyllidebol yn erbyn tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ar ddatgarboneiddio a bioamrywiaeth, gan adolygu cynlluniau gwariant cyfredol i leihau effeithiau carbon a chyflymu'r blaengynllunio ar gyfer y meysydd hynny y mae llywodraeth yn rhyngweithio â nhw.

- **2021–2025+:** Gwella'r dull gweithredu neu hyrwyddo'r dull gweithredu presennol i arfarnu penderfyniadau ariannol i osgoi'r risg y byddai Llywodraeth Cymru yn cefnogi seilwaith sy'n cynyddu allyriadau, heb ddeall yn glir sut byddai'r effaith yn cael ei lliniaru, a sut byddai'r mesurau lliniaru'n cael eu cyllido. Parhau i archwilio'r egwyddor o gysoni cyllidebau ariannol a charbon, ochr yn ochr â'r sylfaen dystiolaeth sy'n datblygu.

## Cynllunio ariannol tymor hirach

- **2021:** Rydym wedi cynnal yr adolygiad o wariant aml-flwyddyn cyntaf ers 2015. Er mwyn cyfrannu at y gwaith o ddyrannu cyllidebau refeniw aml-flwyddyn, gwnaethom gynnal proses adolygu newydd i gysoni gwariant â'r rhaglen lywodraethu newydd. Drwy'r dull gweithredu hwn, rydym wedi ceisio defnyddio dull integredig i ddeall effaith penderfyniadau gwario yn well gan geisio deall effeithiau croestoriadol ac anfwriadol gwariant yn well er mwyn sicrhau bod y cyllid sydd ar gael yn cael yr effaith fwyaf posibl.
- **2022:** Ymgysylltu â'r Grŵp Cynghori ac Effaith Gwella'r Gyllideb i lywio a dylanwadu ar Gynllun Gwella'r Gyllideb.
- **2023–2025+:** Cysoni cynlluniau ariannol a threth er mwyn mynd â chynlluniau ariannol tymor hirach rhagddynt. Gweithio o bosibl gyda rhanddeiliaid i gynhyrchu cynlluniau tymor hirach ar y cyd a sut byddai modd defnyddio rhagolygon dangosol yn effeithiol. Edrych i weld pa wersi gellir eu dysgu gan randdeiliaid rhyngwladol ynghylch sut maen nhw'n ymdrin â gorwel hirach, yn enwedig o ran refeniw. Bydd angen i'r rhain fod yn rhaglenni dros nifer o flynyddoedd a byddant yn seiliedig ar wersi o'r flwyddyn flaenorol.

- **2021:** Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi parhau i weithio gydag aelodau o Rwydwaith y Llywodraethau sydd ag Economi Llesiant (WEGo), gan gynnwys swyddogion o'r Alban, Gwlad yr Iâ, Seland Newydd a Chanada. Mae gan y rhwydwaith hwn uchelgais ar y cyd i gyflawni ac i wella llesiant drwy eu dull gweithredu economaidd.
- **2022–2025+:** Parhau i archwilio gwaith Llywodraethau eraill a'u hagwedd at gynllunio ariannol tymor hirach a nodi pa wersi y gallwn eu dysgu yng Nghymru fel rhan o'n cynlluniau i archwilio opsiynau ar gyfer Cyllidebau tymor hirach ar gyfer y cyfnod y mae gennym setliadau cyllido ar ei gyfer neu i adlewyrchu blaenoriaethau Llywodraeth newydd.

- **2021:** Fel rhan o ddatblygiad y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru nesaf, edrych ar sut gallai modelu senarios roi sail i ddatblygiad. Ystyried sut gall gwaith Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru gefnogi cynlluniau cyfalaf tymor hirach.
- **2022–2025+:** Yn amodol ar waith ar olynydd y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, datblygu dull gweithredu ar gyllidebau cyfalaf tymor hirach er mwyn cynyddu effaith buddsoddiad cyfalaf.

- **2021–2025+:** Parhau i adolygu'r dystiolaeth bresennol, gan gynnwys adroddiad tueddiadau'r dyfodol, cyngor Pwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd a modelu Nuffield i gefnogi trafodaethau am y gyllideb. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gydag adrannau wrth iddynt siapio eu gwaith asesu effaith.

[◄ Nôl i'r dudalen gynnwys]

◆ Etholiad y Senedd

Etholiad Cyffredinol y DU? ◆

| 2021 | 2022 | 2023 | 2024 | 2025+ |
|---|---|---|---|---|
| Cynllunio a chreu cyllideb 2022-23 | Cynllunio a chreu cyllideb 2023-24 | Cynllunio a chreu cyllideb 2024-25 | Cynllunio a chreu cyllideb 2025-26 | Cynllunio a chreu cyllideb 2026-27 |

## Penderfyniadau Gwario

### Tryloywder Data Cyllidebol

Gweithio ar archwilio opsiynau digidol i wneud gwybodaeth am y gyllideb yn fwy tryloyw i helpu pobl i ddeall sut mae'r pandemig wedi cael effaith niweidiol ar y gyllideb. Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

Parhau i fireinio a gwella tryloywder gwybodaeth am y gyllideb, gan weithio gyda rhanddeiliaid allanol, gyda'r nod o wella dealltwriaeth o'r gyllideb a'r ymgysylltiad â hi.

### Dadansoddiad Cyllidol

Datblygu'r model effaith ddosbarthiadol ymhellach i brofi a fyddai modd ei ddefnyddio i ddadansoddi newidiadau mewn gwariant.

Cynnal model dadansoddi dosbarthiadol ac ystyried ffynonellau data newydd a/neu well. Ystyried pa mor ddefnyddiol yw'r model a phennu pa mor aml y dylid cyhoeddi

Ystyried a allai'r model helpu ymhellach o ran y broses polisi trethi a chyllidebol a sut.

Defnyddio adnoddau dadansoddi dosbarthiadol treth i roi sail i benderfyniadau cyllidebu.

## Dadansoddi Ariannol ac Asesu Effaith

### Asesu Effaith Penderfyniadau ynghylch y Gyllideb

Cafodd y pandemig effaith niweidiol ar y gwaith a amlinellir yng Nghynllun Gwella'r Gyllideb, fodd bynnag, rydym wedi parhau i ymgysylltu â Llywodraethau eraill yn yr Alban, Seland Newydd, Canada a Gwlad yr Iâ ynghylch eu dulliau yng nghyswllt pwrpas a nodau'r SIIA.

Wedi parhau i adeiladu ar y dull a ddefnyddiwyd ym mhroses cyllideb 2021-22 ac wedi bod yn treialu ystod o ddulliau gwahanol o asesu effeithiau fel y nodwyd yn y Cynllun Gwella'r Gyllideb ehangach.

Cafodd y pandemig effaith niweidiol ar waith wedi'i gynllunio yn seiliedig ar adborth rhanddeiliaid a datblygiadau cysylltiedig o ran asesu effaith. Bydd y Grŵp Cynghori ar Effaith Gwella'r Gyllideb nawr yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

Drwy'r Grŵp Cynghori ar Effaith Gwella'r Gyllideb newydd, profi'r dull fel y nodwyd yn 2021. (Os cytunir dilyn y trywydd) Ochr yn ochr â hynny, comisiynu rhagor o waith i ailystyried rôl asesu effaith penderfyniadau ynghylch y Gyllideb, i benderfynu sut gellir adlewyrchu'r ystyriaethau canlynol i ddatblygu dull cadarn a thryloyw o asesu effaith penderfyniadau ar wariant:

- Adeiladu ar safbwyntiau rhanddeiliaid ynghylch ei ddiben;
- Sut mae dangos yn fwy effeithiol ac yn gliriach bod Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn sail i'r fframwaith ar gyfer pob dyletswydd arall;
- Datblygiadau i'r teclyn Asesiad Effaith Integredig;
- Datblygiadau i asesiad effaith ddosbarthiadol gwariant cyhoeddus yng Nghymru;
- Uchelgeisiau ar gyfer cyllidebu ar sail rhyw gan gynnwys defnyddio lens rhywedd i ddefnyddio dull croestoriadol;
- Ystyried cydbwysedd nodau tymor hir yn erbyn nodau tymor byr ac effeithiau penderfyniadau gwario.

Gweithredu dadansoddiad gwell o effaith y gyllideb sy'n ystyried pob datblygiad yn y blynyddoedd blaenorol, mewn ffordd sy'n dangos yn glir sut mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn sail i'r holl ystyriaethau hyn. Bydd hyn yn cynnwys rhoi sylw i argymhellion adolygiad a gomisiynwyd (os yw'n berthnasol).

Adolygu a pharhau i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth bresennol sy'n helpu i gyfrannu at flaenoriaethau gwario lefel uchel, gan gynnwys ffynonellau sy'n dangos y tueddiadau tymor hirach yng Nghymru.

Monitro data o raglen y Cyfrifon Dysgu Personol yn barhaus, ac ystyried allbwn o ganfyddiadau interim y gwerthusiad ffurfiol sydd i'w gyhoeddi ym mis Mehefin 2022, er mwyn gwybod a oes angen dull gweithredu gwahanol i hyrwyddo'r nifer o bobl o grwpiau penodol sy'n manteisio ar y cynnig.

Ystyried goblygiadau'r gwerthusiad terfynol o'r rhaglen Cyfrifon Dysgu Personol i bennu i ba raddau y mae 'canolbwyntio ar y rhywiau' wedi'i wreiddio'n llawn, gan nodi gwersi a ddysgwyd ac arferion da.

Adolygu'r dull gweithredu a ddefnyddiwyd hyd yma, ac ystyried gwerth comisiynu adolygiad o'r dull gweithredu, er mwyn cyfrannu at gynlluniau gweithredu yn y dyfodol ar gyfer Cyllidebu ar sail Rhyw.

[◄ Nôl i'r dudalen gynnwys]

Etholiad y Senedd

Etholiad Cyffredinol y DU?

| 2021 | 2022 | 2023 | 2024 | 2025+ |
|---|---|---|---|---|
| Cynllunio a chreu cyllideb 2022-23 | Cynllunio a chreu cyllideb 2023-24 | Cynllunio a chreu cyllideb 2024-25 | Cynllunio a chreu cyllideb 2025-26 | Cynllunio a chreu cyllideb 2026-27 |

## Dadansoddi Ariannol ac Asesu Effaith

### Asesu Effaith Penderfyniadau ynghylch y Gyllideb

Ehangu dull gweithredu Cyllidebu ar sail Rhyw i feysydd polisi eraill, gan geisio integreiddio'r dull gweithredu dan sylw i'r ystyriaethau ehangach o ran yr asesiad o effaith y gyllideb. Ystyried y gwersi a ddysgwyd hyd yma, gan gynnwys sut y gellir defnyddio'r cynllun peilot i ddefnyddio dull croestoriadol i ystyried nodweddion gwarchodedig eraill.

Cynnal dau brosiect peilot arall ym meysydd Teithio Llesol a'r Gwarant Pobl Ifanc. Cynhyrchu adroddiadau interim ar ganfyddiadau o gynlluniau peilot cyllidebu ar sail rhyw i nodi'r prif ganfyddiadau ac unrhyw newidiadau mewn datblygu neu gyflawni polisi o ganlyniad i hynny.

Ystyried goblygiadau a chanfyddiadau'r cynlluniau peilot i bennu i ba raddau y mae 'canolbwyntio ar y rhywiau' wedi'i wreiddio'n llawn, gan nodi gwersi a ddysgwyd ac arferion da.

Parhau i nodi meysydd polisi ar gyfer gweithgarwch a chyfleoedd pellach ar gyfer dysgu a rennir ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Byddwn yn adolygu ein dull Cyllidebu ar sail Rhyw ac yn ymgysylltu â dysgu gan Lywodraethau eraill, gan gynnwys yr Alban, Seland Newydd, Gwlad yr Iâ a Chanada. Byddwn hefyd yn ymgysylltu â Grŵp Cylideb Menywod Cymru a rhanddeiliaid eraill drwy'r strwythur BIIAG diwygiedig er mwyn datblygu ein dull Cyllidebu ar sail Rhyw Bydd yn rhaid datblygu ein dull mewn cydweithrediad ag arweinwyr cyllid yn Adrannau Llywodraeth Cymru, er mwyn cydnabod eu rôl yn y gwaith o bennu cyllidebau mewn portffolios Gweinidogol unigol, a fydd yn digwydd yn annibynnol ar Gyllideb flynyddol Llywodraeth Cymru ond yn cyfrannu at hynny.

Parhau i gydweithio â rhanddeiliaid mewnol allweddol fel Penaethiaid Cyllid, a'r proffesiwn Polisi, a thimau Cydraddoldeb, i gefnogi datblygiadau i asesiadau o'r effaith ar lefel portffolio a datblygu dealltwriaeth ehangach a defnyddio dulliau gweithredu cyllidebu ar sail rhyw, a defnyddio hynny, wrth ddatblygu polisïau a gyda gweithgareddau 'cyllidebu' ar draws Adrannau

### Dadansoddiadau Economaidd

Datblygu canllawiau penodol i Gymru i sicrhau bod egwyddorion y Llyfr Gwyrdd yn cael eu defnyddio mewn meysydd polisi perthnasol mewn modd sy'n gyson â gwerthoedd Llywodraeth Cymru.

Cynhyrchu dadansoddiad economaidd rheolaidd a briff ar yr argyfwng economaidd sy'n esblygu yng nghyswllt y pandemig a throsglwyddo i berthynas fasnachu newydd gyda'r Undeb Ewropeaidd. Mae hyn wedi cynnwys cyflwyniadau i'r Cabinet ac uwch swyddogion, paratoi dadansoddiadau ac asesiadau pwrpasol, a nodir mewn Adroddiad Economaidd Misol mewnol.

Datblygu Adroddiad blynyddol y Prif Economegydd ymhellach i roi sylw i ystod ehangach o fesurau llesiant.

Bwrw ymlaen â'r gwaith parhaus o asesu Gwerth am Arian ar gyfer achosion busnes Llywodraeth Cymru, a dadansoddiadau economaidd a chyngor ar gynigion polisi newydd.

[◄ Nôl i'r dudalen gynnwys]

Etholiad y Senedd (2021)

Etholiad Cyffredinol y DU? (2024)

| 2021 | 2022 | 2023 | 2024 | 2025+ |
|---|---|---|---|---|
| Cynllunio a chreu cyllideb 2022-23 | Cynllunio a chreu cyllideb 2023-24 | Cynllunio a chreu cyllideb 2024-25 | Cynllunio a chreu cyllideb 2025-26 | Cynllunio a chreu cyllideb 2026-27 |

## Cynllunio Seilwaith

**2021:** Cyhoeddi Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru newydd ynghyd a Chyllideb ddrafft 2022-23 ar 20 Rhagfyr 2021, gan bennu canlyniadau y mae'n rhaid i fuddsoddiadau mewn seilwaith yng Nghymru eu galluogi.

**2022–2024:** Archwilio sut byddai modd manteisio i'r eithaf ar beirianwaith a phrosesau mewnol Llywodraeth Cymru i gael y gorau o'n buddsoddiadau yn erbyn y canlyniadau seiliedig ar barthau yn y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, ac i helpu i gyflawni'r camau gweithredu croestoriadol yn ehangach

**2021:** Cyhoeddi'r Cynllun Cyllid Seilwaith cyntaf – sef y cynllun cyflawni ar gyfer Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i bob pwrpas – ochr yn ochr â'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, gan nodi'r buddsoddiadau mewn seilwaith sydd eu hangen dros y cyfnod 2022-23 i 2024-25 i gyflawni'r canlyniadau strategol.

**2022:** Datblygu dull gwerthuso a monitro i asesu i ba raddau y mae'r buddsoddiadau a nodir yn y Cynllun Cyllid Seilwaith yn cyflawni yn erbyn y canlyniadau yn y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, ac edrych ar sut byddai modd manteisio i'r eithaf ar beirianwaith a phrosesau mewnol Llywodraeth Cymru i gyflawni cymaint â phosibl yn erbyn canlyniadau.

**2023:** Parhau i ddatblygu dull gwerthuso a monitro. Ystyried a fyddai treialu'r dull arfaethedig mewn rhai ardaloedd wedi'u targedu.

**2024:** Defnyddio'r dull gwerthuso a monitro i bennu i ba raddau y mae ein buddsoddiadau mewn seilwaith wedi cyflawni yn erbyn y canlyniadau strategol cysylltiedig yn y Cynllun Cyllid Seilwaith.

**2025+:** Wrth i ddiwedd y setliad cyfalaf tair blynedd agosáu (gorffen yn 2024-25), ac yn ddibynnol ar ddarpariaeth setliad cyfalaf aml-flwyddyn dilynol gan Drysorlys EM, mynd ati i ddatblygu ail Gynllun Cyllid Seilwaith, gan ddefnyddio'r canlyniadau strategol cyson a nodir yn y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, ac adlewyrchu canlyniadau'r dull gwerthuso a monitro.

**2021:** Mae elfennau cyfalaf yng Nghyllideb ddrafft 2022-23 yn darparu cyllid aml-flwyddyn ar gyfer y rhaglenni seilwaith a nodir yn y Cynllun Cyllid Seilwaith.

## Cyllidebau Atodol

**2021:** Roedd trydedd gyllideb atodol 2020-21 a chyllideb atodol gyntaf 2021-22 yn parhau i ddarparu naratif cynhwysfawr o ddyraniadau sylweddol y cyllidebau presennol a sut maent yn cael eu hailflaenoriaethu, ac effeithiau hynny, er mwyn gwella tryloywder.

**2021:** Roedd cyllideb atodol gyntaf 2021-22 hefyd yn adlewyrchu'r newidiadau i bortffolios gweinidogol o ganlyniad i gyfrifoldebau Cabinet newydd Llywodraeth Cymru yn dilyn etholiadau'r Senedd. Nodwyd y newidiadau hynny yn yr atodlenni ategol i nodi'n glir lle oedd cyllidebau unigol wedi symud.

**2022–2025+:** Bydd y naratif ategol ar gyfer cyllidebau atodol yn y dyfodol yn parhau i gael ei asesu ar sail lefel y newidiadau mae'r gyllideb yn eu cynrychioli. Pan fo'n briodol, bydd datblygiadau mewn meysydd eraill o brosesau cynllunio'r gyllideb hefyd yn cael eu hystyried.

[◄ Nôl i'r dudalen gynnwys]

Etholiad y Senedd

Etholiad Cyffredinol y DU?

| 2021 | 2022 | 2023 | 2024 | 2025+ |
|---|---|---|---|---|
| Cynllunio a chreu cyllideb 2022-23 | Cynllunio a chreu cyllideb 2023-24 | Cynllunio a chreu cyllideb 2024-25 | Cynllunio a chreu cyllideb 2025-26 | Cynllunio a chreu cyllideb 2026-27 |

## Trethi Cymreig

Cyhoeddi Cynllun Polisi Trethi Blynyddol a'r adroddiad.

Bwrw ymlaen ag ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ymgynghori ar ganiatáu i awdurdodau lleol godi ardoll twristiaeth.

Cwblhau adolygiadau ffurfiol o'r Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi.

Parhau i archwilio'r opsiynau polisi sy'n ymwneud â threth ar dir gwag gyda rhanddeiliaid yn dilyn gwaith i sicrhau'r cymhwysedd angenrheidiol gan Lywodraeth y DU.

Treth Pecynnau Plastig y DU: Treth i ddod i rym erbyn mis Ebrill 2022.

Adolygu'r trethi presennol a newydd posibl er mwyn helpu i sicrhau egwyddorion ac amcanion y Fframwaith Polisi Trethi ac er mwyn cyfrannu at benderfyniadau Gweinidogion ynghylch meysydd posibl i'w datblygu yn y dyfodol.

Gwaith parhaus i wella gallu treth Cymru yn y meysydd polisi, dadansoddi, cyfathrebu ac ymgysylltu, ymchwil a thystiolaeth a gweinyddu.

Ystyried sut mae defnyddio lifrau polisi, deddfwriaethol a threth ehangach gyda phartneriaid polisi i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a chyflawni ein hamcanion amgylcheddol ehangach.

Parhau i ddatblygu cynnig deddfwriaethol i ddarparu cyfrwng ychwanegol i Weinidogion Cymru ymateb pan fydd angen newid Deddfau Trethi Cymru yn gyflym.

[◄ Nôl i'r dudalen gynnwys]

Etholiad y Senedd

Etholiad Cyffredinol y DU?

| 2021 | 2022 | 2023 | 2024 | 2025+ |
|---|---|---|---|---|
| Cynllunio a chreu cyllideb 2022-23 | Cynllunio a chreu cyllideb 2023-24 | Cynllunio a chreu cyllideb 2024-25 | Cynllunio a chreu cyllideb 2025-26 | Cynllunio a chreu cyllideb 2026-27 |

## Ymgysylltu Ynghylch Trethi a'r Gyllideb

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nodi meysydd arferion gorau o ran cynhwysiant ac ymgysylltu ar draws adrannau'r llywodraeth a'r sector cyhoeddus yn ehangach. | Datblygu negeseuon a chyfathrebu mwy penodol i ddangos effaith gwariant ar draws adrannau'r llywodraeth a meysydd cyllideb. | Symud o ymwybyddiaeth o ymgysylltiad, defnyddio'r arferion da a nodwyd, er mwyn helpu i asesu effaith penderfyniadau ynghylch y gyllideb a dylanwadu ar flaenoriaethau gwario. | |
| Gweinidogion yn ymgysylltu'n â rhanddeiliaid allweddol, fel Comisiynwyr Statudol, Llywodraeth Leol a'r Trydydd Sector, a'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol, i drafod paratoadau a blaenoriaethau ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2022-23. | Datblygu dulliau newydd o roi gwybod i randdeiliaid am broses y Gyllideb, a sut gallant gyfrannu gwybodaeth a chael dylanwad. | Archwilio cyfleoedd pellach i ymgysylltu â grwpiau rhanddeiliaid er mwyn penderfynu ar y ffordd fwyaf effeithiol o ymgysylltu â'r grwpiau hyn i ddylanwadu ar flaenoriaethau'r gyllideb. | |
| Defnyddio cyfryngau cymdeithasol cyn cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft 2021-22 i ddangos sut mae Llywodraeth Cymru yn derbyn ac yn gwario ei harian; tynnu sylw at rôl y Llywodraeth Leol Cyllid a chyfleu thema a negeseuon allweddol cyllideb ddrafft 2022-23. Mae cynnwys yr ymgyrch yn cynnwys asedau digidol fel ffilmiau, ffeithluniau ac esboniad o'r gyllideb. Bydd gweithgarwch y cyfryngau ar y diwrnod yn cynnwys hysbysiad i'r wasg, cyfweliadau, ffilm gan y Gweinidog ac animeiddiad i'w ddefnyddio ar draws sianeli cyfryngau, a fyddant i gyd yn cyfleu'r prif negeseuon am y gyllideb. Bydd yr asedau digidol a ddatblygir yn parhau i gael eu defnyddio mewn ymgyrchoedd eraill gyda'r nod o barhau i godi ymwybyddiaeth o'r broses gyllidebu flynyddol. | Ceisio barn grwpiau targed gyda'r bwriad o ddatblygu cynnwys llythrennedd yn y Gyllideb i gefnogi ymgysylltiad. | Datblygu llyfrgell gynnwys i ymgorffori mewnbwn gan grwpiau targed mewn deunydd newydd. | Parhau i archwilio cyfleoedd i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a gwella dogfennau a gyhoeddir am y gyllideb i rannu'r negeseuon allweddol mewn ffordd syml, er mwyn codi ymwybyddiaeth dinasyddion o Gyllideb Llywodraeth Cymru (treth a gwariant). |
| | Casglu gwybodaeth am brofiadau ac ymwybyddiaeth dinasyddion yn barhaus er mwyn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu naratif ar gyfer cyd-destun COVID-19, cyd-destun adfer a chyfranogiad yn y dyfodol. Monitro a gwerthuso gweithgarwch cyfathrebu'n barhaus er mwyn sicrhau cyflawniad yn erbyn amcanion ac i asesu targedau a chyrhaeddiad yn gyson. | | |
| | Gweithio gyda sefydliadau partner a defnyddio arbenigedd o'r Grŵp Cynghori ar Effaith Gwella'r Gyllideb newydd. | Myfyrio ar ddysgu a chyngor er mwyn datblygu a chyfrannu at strategaeth ymgysylltu 3 blynedd i gryfhau ac adeiladu ar ymdrechion ymgysylltu gyda'r nod o gynyddu'r effaith ar lefel rhanddeiliaid ac ymysg dinasyddion ehangach yng Nghymru ar flaenoriaethau'r gyllideb. | |
| Wrth i gyfrifoldebau trethi datganoledig aeddfedu, parhau i ddefnyddio'r Grŵp Ymgysylltu ynghylch Trethi fel cyfrwng i archwilio, cefnogi a llywio'r gwaith o lunio polisïau, gan nodi cyfleoedd a heriau yn y dyfodol. Adolygiad blynyddol a phroses o werthuso mewnbwn er mwyn cyfrannu ar gyfer y blynyddoedd dilynol. | | | |
| Cynhadledd dreth flynyddol Trysorlys Cymru (a gynhelir gan amlaf cyn toriad yr haf) - gan helpu i gyflawni ein hymrwymiad i weithredu'n agored, yn onest ac yn dryloyw ar bolisi trethi. Nod y gynhadledd yw dwyn ynghyd rhanddeiliaid o bob cwr o Gymru, y DU a phartneriaid rhyngwladol i helpu i hyrwyddo agenda treth Cymru, rhannu arferion da a'r datblygiadau diweddaraf ar bolisi trethi a gwahodd mewnbwn i gyfrannu at ddatblygu polisïau. | | | |
| Mapio a dadansoddi rhanddeiliaid yn rheolaidd ar gyfer meysydd treth er mwyn sicrhau ymdrech ymgysylltu gyffredinol effeithiol ar gyfer yr agenda dreth. Adolygu'r dulliau ar gyfer mesur effaith yr ymdrechion ymgysylltu. | | | |
| Parhau i archwilio cyfleoedd i ymgysylltu ag adrannau Llywodraeth Cymru i ddatblygu naratif yng nghyswllt gwariant ac effaith a chynyddu'r cyrhaeddiad. | Datblygu negeseuon a chyfathrebu mwy penodol i ddangos effaith gwariant ar draws adrannau'r llywodraeth a meysydd cyllideb. Ystyried ffyrdd o weithio ar draws y llywodraeth i dargedu negeseuon yn y meysydd hyn, gan godi ymwybyddiaeth a hybu rhagor o ymgysylltu. | | |

# Adolygu

**Deddf WFG – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)**

**SIIA – Asesiad Effaith Integredig Strategol o'r gyllideb**

**IIA – Asesiad Effaith Integredig**

**UKCCC – Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd**

**WCPP – Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru**

**MEGs – Prif Grwpiau Gwariant**

**BELs – Llinellau Gwariant yn y Gyllideb**

**WIIP – Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru**

**NICW – Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru**

**FGC – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol**

**BAGE – Grŵp Cynghori ar Gydraddoldeb y Gyllideb**